# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Evan James

**Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James**
**Rhondda Road**
**Pontypridd**
**CF37 1HF**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Evan James

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Evan James |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Angharad Cullimore |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Eleri Griffiths |
| Person â gofal | Angharad Cullimore |
| Nifer y lleoedd | 151 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 48 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 9 – 12.30pm a 1 – 5pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Rhagfyr 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ddim wedi cael arolygiad Estyn o'r blaen |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 31/01/2023 |
| Mae ychydig iawn o blant yn dod o gartrefi ble siaredir Cymraeg adref. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant

A2 Sicrhau bod yr arsylwadau'n nodi'r cam nesaf yn nysgu'r plant, ac yn ddigon hylaw i fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr

A3 Sicrhau bod y gweithdrefnau hunanwerthuso yn cynnwys pob ymarferydd wrth werthuso cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn frwdfrydig ac yn barod i chwarae a dysgu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n glir, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau am sut maent yn teimlo. Mae rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae ac yn dilyn eu hoffterau personol, er enghraifft wrth chwarae â'r dinosoriaid yn yr ardal byd bach.

Mae'r plant yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn rhoi cysur, pan fo angen. O ganlyniad, mae unrhyw blentyn sy'n ansicr yn cael sylw uniongyrchol priodol. Mae pob plentyn yn hyderus a chyfarwydd â'r drefn ac yn dechrau ar weithgareddau yn syth pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad. Mae bron pob plentyn yn gyfarwydd â threfn y dydd, yn cyfarch eu ffrindiau'n hapus ac yn ymgolli mewn gweithgareddau yn syth ar ôl cyrraedd y lleoliad.

Mae hanner y plant yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, mae rhai yn golchi dwylo a thynnu cotiau a bagiau yn annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad gan rai plant i ddibynnu'n ormodol ar ymarferwr i wneud pethau drostynt. O ganlyniad, mae medrau annibynnol y plant yn datblygu'n arafach na'r disgwyl. Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, gan ddangos parch tuag at eu ffrindiau, ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf o blant yn cyd-chwarae'n dda, er enghraifft wrth reidio beiciau a sgwteri yn yr ardal allanol. Mae bron pob plentyn yn awyddus i ymuno a chyfrannu i ganeuon yn ystod amser cylch ac maent yn dangos pleser wrth wneud hyn, yn enwedig os ydynt wedi dewis y gân.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol, er enghraifft wrth ddewis amrywiaeth o ffrwythau a llysiau ffres i greu wyneb, gan ddefnyddio drychau i'w helpu. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau creadigol ac yn dangos dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau cwblhau gweithgareddau peintio, sy'n cael eu harddangos ar y wal. O ganlyniad, mae hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall, i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn dilyn systemau a gweithdrefnau trylwyr er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i blant ddatblygu yn ôl eu hoed a'u gallu. Maent yn hyrwyddo bod pob un plentyn yn gorfforol weithgar ac mae mynediad i ddŵr yfed drwy gydol y sesiwn. Maent yn cadw cofnodion am unrhyw bryderon, damweiniau, digwyddiadau a gwybodaeth berthnasol yn ddiogel a manwl. Mae'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf a hylendid bwyd, sy'n sicrhau

bod ganddynt ddealltwriaeth o'r prosesau i'w dilyn er mwyn cadw plant yn ddiogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn defnyddio asesiad pwrpasol i adnabod anghenion pob plentyn o ran iaith a chyfathrebu. Mae'r ymarferwyr wedi datblygu partneriaethau llwyddiannus â'r rhieni i sicrhau cefnogaeth briodol i'w plant. Mae gan yr arweinydd wybodaeth gadarn am drefniadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac mae'n sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu. Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn hynod effeithiol, ac mae perthynas hyfryd yn bodoli rhyngddynt. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut i gefnogi plant i wneud ffrindiau ac i reoli eu teimladau. Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn dda ac maent yn siarad â phlant yn sensitif ac yn ddeallus, er enghraifft drwy atgoffa plant pa mor bwysig yw bod yn ffrindiau. Mae'r ymarferwyr yn modelu ymddygiad yn effeithiol ac yn dangos parch tuag at y plant bob tro. Maent yn cefnogi plant drwy siarad yn naturiol wrth iddynt chwarae â nhw mewn sesiynau amser cylch. Mae agwedd dawel bob ymarferwr yn cael effaith bositif ar y plant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth am ddathliadau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Santes Dwynwen a Sul y Cofio yn effeithiol. Maent hefyd yn dathlu arwyr Cymreig o fewn y lleoliad, megis Syr Tom Jones, Sali Mali ac Evan James a James James, sydd yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o fod yn Gymreig.

Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig iawn ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n annog datblygiad cyffredinol plant. Maent yn dechrau datblygu'r Cwricwlwm i Gymru drwy sicrhau cyfleoedd pwrpasol i blant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae. Er enghraifft, trefnodd yr ymarferwyr weithgaredd coginio bisgedi i ymateb i chwilfrydedd a mwynhad y plant wrth ddefnyddio torwyr bisgedi yn yr ardal hydrin. Mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae tu fewn a thu allan sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant fentro, arbrofi a datrys problemau i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu arbennig i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn darparu cyfleoedd diddorol sy'n cymell plant i ddangos diddordeb am fywydau pobl eraill ar draws y byd; er enghraifft, maent yn creu lamp Tsieineaidd wrth drafod a dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r ymarferwyr hefyd yn sicrhau bod y plant yn datblygu gwell ddealltwriaeth o fywydau pobl a phlant eraill, er enghraifft wrth wisgo i fyny a chodi arian at ddiwrnod Plant Mewn Angen. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am Gymru a gwahanol draddodiadau fel Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd gadael i blant ddysgu drwy chwarae, er enghraifft drwy ddarparu cyfleoedd yn y twb tywod i wneud marciau cynnar gyda cheir a thryciau. Maent yn hyrwyddo datblygiad iaith y plant drwy fod yn fodelau iaith

da a thrwy sicrhau bod caneuon a rhigymau i'w clywed drwy gydol y sesiwn. Maent yn ymyrryd yn briodol a synhwyrol yn chwarae'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau diddorol i'r plant sy'n llwyddo i greu dysgwyr chwilfrydig a datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae plant yn cael cyfleoedd i ymgolli yn eu chwarae a datblygu eu medrau corfforol, creadigol a mathemategol drwy ddefnyddio sosbenni i gario tywod yn ôl ac ymlaen o'r ardal dywod i'r ardal ddŵr. Maent yn sicrhau rhyddid a dewis i'r plant gael mynediad at offer a theganau yn yr ardal allanol sydd yn galluogi'r plant i gael cyfnodau hir o chwarae di-dor. Mae'r ddarpariaeth apelgar hyn yn rhoi cyfle i bob un plentyn chwarae a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dechrau cofnodi arsylwadau o ddatblygiad a chyflawniadau plant. Mae'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n hynod effeithiol â rhieni a gofalwyr i rannu lluniau a chofnod o gyflawniadau'r plentyn drwy gyfryngau digidol. Fodd bynnag, nid yw'r arsylwadau bob tro'n nodi'r cam nesaf yn y dysgu nac ychwaith yn ddigon hylaw i fod o ddefnydd ymarferol o ddydd i ddydd.

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda. Mae'n cynnig cyfleoedd effeithiol a gwerthfawr i'r plant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r amgylcheddau chwarae yn braf, yn gyfforddus a chysurus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae'r ymarferwyr yn creu awyrgylch gyfeillgar a chroesawus sy'n sicrhau bod plant yn teimlo'n gartrefol. Mae ymarferwyr yn dathlu creadigrwydd y plant drwy arddangos eu gwaith yn gelfydd mewn orielau. Er enghraifft, mae lluniau o'r plant a'u teuluoedd wedi eu harddangos ar y wal, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Maent yn trefnu'r amgylcheddau mewnol yn bwrpasol i sicrhau ardaloedd diddorol ac ysgogol, sy'n darparu profiadau da i'r plant. O ganlyniad, mae ardaloedd ar gael i blant ddatblygu'n greadigol, i orffwys, i ddarllen ac i gymdeithasu â'i gilydd yn ôl eu hoedrannau.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn pe byddai argyfwng. Maent yn rhoi blaenoriaeth i asesu risg sy'n perthyn i'r ardaloedd tu mewn a thu allan ac i weithgareddau penodol. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol.

Mae'r ardal allanol wedi'i chynllunio'n bwrpasol i alluogi plant i ddatblygu'n gorfforol, yn greadigol ac yn ymchwiliol. O ganlyniad, mae cyfleoedd gan y plant i ddatblygu eu medrau mudol mawr a mân drwy reidio beic, dringo cwch pren ac i greu wynebau digrif ar datws. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn ogystal, anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad effeithiol at deganau a llyfrau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel ac mae'n cefnogi a herio pawb i wneud eu gorau. Mae'n rhannu gwybodaeth gyda'r unigolyn cyfrifol ac yn gwneud defnydd da o arian grant i ddatblygu'r lleoliad ymhellach. Er enghraifft, mae buddsoddiad yn yr ardal allanol wedi arwain at welliant i ddeilliannau dysgu a gofal y plant.

Mae gan y lleoliad berthynas dda iawn â rhieni a gofalwyr. Wrth i blant ddechrau yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn cysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn canfod anghenion a diddordebau eu plant. Maent yn eu hysbysu am les a datblygiad eu plentyn ynghyd â rhannu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddiweddariadau. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y rhieni a'r lleoliad yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos â'r ysgol i wneud defnydd buddiol o'r ardal tu allan maent yn ei rhannu. Mae trafodaethau rheolaidd â staff y dosbarth meithrin yn golygu bod trefniadau trosglwyddo'r plant o'r lleoliad i'r ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar gyngor defnyddiol swyddogion y mudiadau cefnogol.

Mae gan y lleoliad drefniadau hunanwerthuso addas. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferydd bob amser yn chwarae rhan ddigon gweithredol wrth werthuso cryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella. Golyga hyn nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o beth sydd angen ei wneud i symud y lleoliad ymlaen mewn modd amserol.

Mae'r arweinydd yn trefnu'r lleoliad yn dda gan sicrhau bod pob ymarferydd yn bodloni anghenion plant yn effeithiol. Mae hi'n cymryd rôl weithgar yn y lleoliad ac yn hyrwyddo ethos positif, cynhwysol a hapus. O ganlyniad, mae plant yn profi amgylchedd cynnes a gofalgar. Mae gan bawb barch at ei gilydd ac mae'r arweinydd yn croesawu cyfraniadau'r ymarferwyr. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae pob ymarferydd yn deall eu swyddogaethau'n llawn ac mae ymrwymiad cryf i waith tîm.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | The responsible individual did not notify Care Inspectorate Wales (CIW) of a change to the people working at the service within the expected timescales. The provider must ensure that CIW are notified of any significant event within the required timescales. | Adolygwyd |
| 20 | The responsible individual and person in charge did not have a valid Disclosure and Barring Service (DBS) Certificate. The responsible individual must ensure that they and the person in charge have a valid DBS Certificate. | Adolygwyd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete